OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2019 Rhif 1019 (Cy. 179)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

# Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Cyfnewidfa Glan-bad i Gyfnewidfa Bridge Street, Pontypridd, Rhondda Cynon Taf) (Terfyn Cyflymder 50 mya) 2019

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *12 Mehefin 2019* |
| *Yn dod i rym* | *17 Mehefin 2019* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd yr A470, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 84(1)(a) a (2) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**) ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog Heddlu De Cymru, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, Cychwyn a Dehongli**

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Cyfnewidfa Glan-bad i Gyfnewidfa Bridge Street, Pontypridd, Rhondda Cynon Taf) (Terfyn Cyflymder 50 mya) 2019 a daw i rym ar 17 Mehefin 2019.

**2.** Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw:

(a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**2**);

---

(**1**) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 84(1) gan adran 45(2) o Ddeddf Traffig Ffyrdd 1991 (p.40). Amnewidiwyd adran 84(2) gan baragraff 61 o Atodlen 8 i Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p.22). Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(**2**) Diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p.21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p.15), paragraff 29(2) o Atodlen 8(2) i Ddeddf Troseddu a'r Llysoedd 2013 (p.22) ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p.20).

(b) unrhyw gerbyd sy’n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu’r llu awyr ac sy’n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy’n aelod o’r lluoedd arbennig—

(i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy’n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu

(ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw Cefnffordd yr A470 Caerdydd i Langurig; ac

ystyr “lluoedd arbennig” (“*special forces*”) yw’r unedau hynny o’r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

**Cyfyngiad**

**3.** Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd modur, ac eithrio cerbyd esempt, yn gyflymach na 50 milltir yr awr ar y darnau o’r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i’r Gorchymyn hwn.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 12 Mehefin 2019

*Richard Morgan*
Pennaeth Cynllunio, Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

**YR ATODLEN**

Y darn o’r gefnffordd sy’n ymestyn o bwynt 320 o fetrau i’r de o drwyniad y ffordd ymadael tua’r gogledd wrth Gyfnewidfa Glan-bad hyd at bwynt 450 o fetrau i’r gogledd o drwyniad y ffordd ymuno tua’r gogledd wrth Gyfnewidfa Bridge Street, Pontypridd.

Y darnau o ffyrdd ymadael ac ymuno tua’r gogledd a thua’r de y gefnffordd wrth Gyfnewidfa Glan-bad.

Y darnau o ffordd ymadael tua’r gogledd a ffordd ymuno tua’r de y gefnffordd wrth Gyfnewidfa Glyn-taf.

Y darn o ffordd ymadael tua’r gogledd y gefnffordd wrth Gyfnewidfa Broadway sy’n ymestyn o’i

chyffordd â'r brif gerbytffordd tua'r gogledd hyd at bwynt 45 o fetrau i'r de o'i chyffordd â phrif gerbytffordd gylchredol yr A4058 wrth Gyfnewidfa Broadway.

Y darn o ffordd ymuno tua'r de y gefnffordd wrth Gyfnewidfa Broadway sy'n ymestyn o bwynt 30 o fetrau i'r de o'i chyffordd â phrif gerbytffordd gylchredol yr A4058 wrth Gyfnewidfa Broadway hyd at ei chyffordd â'r brif gerbytffordd tua'r de.

Y darn o ffordd ymuno tua'r gogledd y gefnffordd wrth Gyfnewidfa Bridge Street sy'n ymestyn o bwynt 30 o fetrau i'r gogledd o'i chyffordd â phrif gerbytffordd gylchredol Cyfnewidfa Bridge Street hyd at ei chyffordd â'r brif gerbytffordd tua'r gogledd.

Y darn o ffordd ymadael tua'r de y gefnffordd wrth Gyfnewidfa Bridge Street.